**Tasg 2**

# Eitem ddiddorol

1. Gwyliwch eitem ddiddorol ar y rhaglen **Heno**.
   Trafodwch y clip, e.e.

   - Am beth mae’r eitem yn sôn?
   - Beth sy’n digwydd yn yr eitem?
   - Beth yw’ch barn chi am yr eitem?
     Cofiwch roi digon o resymau i gefnogi’r hyn rydych chi’n ei ddweud.

2. Rydych chi’n mynd i baratoi eitem ddiddorol ar gyfer rhaglen gylchgrawn – rhaid i chi:
   - chwilio am / feddwl am eitem ddiddorol am eich ardal (Gallwch chi greu eitem ddychmygol os ydych chi eisiau!)
   - ysgrifennu am yr eitem
   - cyflwyno’r eitem – beth am ffilmio’ch hunain?

Pan fyddwch chi’n ysgrifennu’r eitem, meddyliwch am:

**beth yw’r stori?**

**ble mae’n digwydd**

**pwy yw’r bobl (neu anifeiliaid efallai)**

**pryd mae’n digwydd / pryd digwyddodd / pryd bydd yn digwydd**

**y manylion**

3. Gwyliwch / Gwrandewch ar eitemau eich gilydd.
   Beth yw’ch barn chi am yr eitemau?
   Cofiwch roi digon o resymau i gefnogi’r hyn rydych chi’n ei ddweud.